Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid ychwanegol i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad mewn sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol 2025/26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Ionawr 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/02 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Brifathrawon sefydliadau addysg bellach<br>Cyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Gareth Lanagan \| BuddsoddiadAMonitro@medr.cymru |

**Crynodeb**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r trefniadau a'r amseriadau ar gyfer cyllid ychwanegol gwerth **£21,126,000** i gydnabod cynnydd mewn cyfranogiad mewn sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau lleol ym mlwyddyn academaidd 2025/26.

Clustnododd Medr y cyllid hwn fel rhan o'i gyllideb ar gyfer 2024-25 a chaiff ei ddyrannu i ddarparwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.

Caiff y cyllid hwn ei dalu'n llawn mewn un rhandaliad ym mis Ionawr 2026.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r trefniadau a'r amseriadau ar gyfer cyllid ychwanegol gwerth **£21,126,000** i gydnabod cynnydd mewn cyfranogiad mewn sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau lleol ym mlwyddyn academaidd 2025/26.

2. Clustnododd Medr y cyllid hwn fel rhan o'i gyllideb ar gyfer 2024-25 a chaiff ei ddyrannu i ddarparwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.

3. Caiff y cyllid hwn ei dalu'n llawn mewn un rhandaliad ym mis Ionawr 2026.

## Sail resymegol

4. Roedd y broses ddyrannu fel a ganlyn:
   i) Gwarentir hyd at 5% o unrhyw orgyflawni i bob darparwr.
   ii) Ar sail pro rata, rhannwyd yr elfennau a oedd yn weddill o'r £21.126m rhwng yr awdurdodau lleol a'r sefydliadau addysg bellach a oedd yn gweithio uwchlaw 5% o'u dyraniad gwreiddiol.
   iii) Addaswyd cyfuniad o i) a ii) yn seiliedig ar y newidiadau a oedd yn angenrheidiol i'r gronfa gwerth £10m ar gyfer cynnydd mewn cyfranogiad yn 2024/25. Ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn unig y mae hyn. Roedd hyn o ganlyniad i wall yng nghiplun data mis Rhagfyr 2024 Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, sydd bellach wedi cael ei gywiro.

## Symiau ac amseriadau'r cyllid ychwanegol

5. Rhoddir dyraniad ychwanegol o **£18,020,897.72** i sefydliadau addysg bellach am gynnydd mewn cyfranogiad ym mlwyddyn academaidd 2025/26, fel y gwelir yn y tabl isod:

| Sefydliad addysg bellach | Addysg bellach \| Cymorth ychwanegol ar gyfer cyllid prif ffrwd |
|---|---:|
| Coleg Penybont | £872,587.48 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £2,058,056.69 |
| Coleg Cambria | £2,547,714.70 |
| Coleg Gwent | £2,273,366.02 |
| Coleg Sir Gâr | £1,058,470.25 |
| Coleg y Cymoedd | £1,843,057.34 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £1,498,235.69 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £2,341,486.00 |
| Grŵp NPTC | £1,421,489.70 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | £894,499.30 |

| | |
|---|---|
| Coleg Sir Benfro | £674,369.20 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | £537,565.35 |
| **Cyfanswm** | **£18,020,897.72** |

6. Rhoddir dyraniad ychwanegol o **£3,247,221.59** i awdurdodau lleol am gynnydd mewn cyfranogiad ar gyfer cyllid prif ffrwd ym mlwyddyn academaidd 2025/26, fel y gwelir yn y tabl isod.

| Awdurdod lleol | Awdurdod lleol \| Cymorth ychwanegol ar gyfer cyllid prif ffrwd |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | £139,737.76 |
| Cyngor Caerdydd | £848,827.40 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | £135,542.12 |
| Cyngor Sir Ddinbych | £201,391.89 |
| Cyngor Sir y Fflint | £153,758.21 |
| Cyngor Sir Fynwy | £197,469.32 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | £112,346.27 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | £157,296.10 |
| Cyngor Sir Penfro | £167,861.62 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £393,914.14 |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | £329,051.31 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | £22,864.36 |
| Cyngor Bro Morgannwg | £387,161.09 |
| **Cyfanswm** | **£3,247,221.59** |

7. Mae'r cyllid hwn yn gysylltiedig â'r cyfnod o 1 Awst 2025 tan 31 Gorffennaf 2026. Caiff y cyllid ychwanegol hwn i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 ei dalu'n llawn mewn un rhandaliad ym mis Ionawr 2026.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government